

Cynllun leithoedd Swyddogol: Adroddiad Blynyddol 2017-18

Gorffennaf 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@CynulliadCymru](https://twitter.com/CynulliadCymru)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun leithoedd

Swyddogol:


Adroddiad Blynyddol 2017-18

Gorffennaf 2018



Cynnwys

Ein perfformiad.....	7
Rhagair.....	8
Ein huchelgais a'n hymrwymiad	10
Safonau Gwasanaeth	12
Adborth gan Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth.....	12
Cynllunio'r gweithlu a pheuoedd iaith.....	12
Gwybodaeth ystadegol	14
Recriwtio	14
Busnes y Cynulliad	15
Trafodion y Cynulliad	16
Pwyllgorau.....	17



Themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun.....	19
Thema 1: Recriwtio.....	20
Thema 2 : Sgiliau Iaith	23
Thema 3 : Cynllunio Ieithyddol.....	26
Thema 4 : Trafodion y Cynulliad	28
Thema 5 : Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad	30
Adnabod Staff Dwyieithog	30
Ymwybyddiaeth	32
Technoleg.....	33
Cyfieithu ar y pryd.....	34
Rhannu arbenigedd	34
Monitro a Chydymffurfio	35



EIN PERFFORMIAD



Rhagair



Adam Price AC

Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Ein bwriad wrth lunio a chyflwyno'r Cynllun hwn oedd i osod targedau uchelgeisiol a heriol. Dyma'r camau fydd yn ein harwain at wireddu ein huchelgais o fod yn sefydliad sy'n adnabyddus am y modd y mae'n darparu gwasanaethau dwyieithog arloesol a rhagorol yn ddiodyn. Ein nod yw i greu ethos a diwylliant dwyieithog amlwg ar draws ein sefydliad, ac i fod yn batrwm i gyrff cyhoeddus eraill ar draws Cymru a thu hwnt.

Mae'r gwaith o sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r safonau gwasanaeth a amlinellwyd yn y cynllun yn parhau. Pan nad oeddem wedi llwyddo i gyrraedd y safon, rydym wedi ystyried beth aeth o'i le, ac wedi defnyddio'r profiad i wella ein darpariaeth.

Eleni, yn ogystal â chynnal y safonau gwasanaeth sydd wedi eu nodi yn y cynllun, rydym hefyd wedi bod yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer gwelliannau pellach. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith hwnnw, a bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn gyfle i adlewyrchu ar ba mor llwyddiannus oedd y datblygiadau newydd hyn. Cawsom adborth gan Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth yn ystod y flwyddyn hefyd. Roedd yn dda gweld eu bod, ar y cyfan yn gefnogol i'n gwaith yn y maes hwn, ac yn teimlo ein bod wedi gwella'n barhaus dros gyfnod o nifer o flynyddoedd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer o gynnydd wedi'i wneud. Trwy adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn y pedwerydd Cynulliad, a meddwl yn wahanol am ein ffyrdd o weithio, mae newidiadau i'w gweld ar draws y sefydliad. Rydym yn falch o'r gwaith sydd wedi'i wneud, ond mae mwy i ddod. Mae'n bwysig nad ydym yn bodloni ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ond yn hytrach, yn anelu yn uwch.

Bydd rhai elfennau o'r adroddiad blynyddol eleni yn newydd. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun ar gyfer y pumed Cynulliad, ac yn sgil sylwadau gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, ac yn ystod y ddadl yn y cyfarfod llawn, rydym wedi ychwanegu rhai ystadegau. Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol, byddwn yn parhau i ddatlu llwyddiannau trwy ddisgrifio'r gwaith sy'n digwydd ar y Themâu a'r gwersi a ddysgwyd, ond byddwn hefyd yn cymharu data meintiol. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn galluogi Aelodau Cynulliad i fapio cynnydd a pherfformiad y Comisiwn mewn sawl maes dros gyfnod y Cynllun. Mae'r adroddiad eleni yn cynnwys data cychwynnol, a bydd adroddiadau mewn blynyddoedd i ddod yn cynnwys y data ar ffurf y bydd modd cymharu'r sefyllfa dros nifer o flynyddoedd. Bydd y broses o gasglu'r wybodaeth hefyd yn cynorthwyo Comisiwn y Cynulliad i adnabod unrhyw dueddiadau ac i gymryd camau, i ddarparu rhagor o gymorth neu gefnogaeth, i arallgyfeirio adnoddau a sgiliau neu i newid dulliau gweithio.



Ein huchelgais a'n hymrwymiad

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r ddwy iaith neu'r naill iaith swydddogol neu'r llall, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus.

Ymrwymiad y Comisiwn i ddwyieithrwydd yw'r sail ar gyfer cyflawni'r uchelgais hwn ac mae ein gwasanaethau, ein strategaethau a'n dyheadau yn adlewyrchu statws cyfartal ein hieithoedd swydddogol. Rydym yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o fewn ein gweithlu, ac mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth o fewn y sefydliad trwy ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau yn ein hieithoedd swydddogol, yn rhoi'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad ar waith a'r goblygiadau inni o ran Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swydddogol) 2012.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl randdeiliaid – Aelodau Cynulliad a'u Staff Cymorth, y cyhoedd a staff y Comisiwn yn ymwybodol o'r Cynllun a'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir. I'r perwyl hynny, roedd gwybodaeth am y Cynllun a hwyluso gweithio'n ddwyieithog i Aelodau Cynulliad yn rhan o'r rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad a'u Staff Cymorth. Rydym yn parhau i sicrhau bod staff dwyieithog yn bresennol mewn ardaloedd cyhoeddus ar draws yr ystâd, bod modd eu hadnabod yn hawdd a'u bod yn hyderus i ymdrin ag ymwelwyr yn ein dwy iaith swyddogol. Mae'r un peth yn wir am y timau sy'n ymwneud â'r cyhoedd y tu hwnt i'r ystâd.

Fel rhan o'r rhaglen gynefino gorfforaethol mae holl aelodau staff newydd y Comisiwn yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithoedd swyddogol cychwynnol ac yn cwrdd ag aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ac aelod o'r Tîm Sgiliau Iaith. Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o bob elfen o waith y Comisiwn o ddigwyddiadau cyhoeddus a chyhoeddiadau i arwyddion ar draws yr ystâd a rhyngwynebau rhaglenni cyfrifiadurol. Pan nad ydym yn cyrraedd y safon, byddwn yn dysgu o'r hyn a ddigwyddodd ac yn addasu ein dulliau gweithio er mwyn osgoi problemau pellach.

Safonau Gwasanaeth

Dros y flwyddyn seneddol ddiwethaf, ers cymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y pumed Cynulliad, mae'r gwaith dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau dwyieithog wedi parhau. Mae cynnal y safonau a osodwyd yn rhan o'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf ym mhob maes.

Adborth gan Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth

Fel rhan o'r broses ffurfiol o ddeall anghenion Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth, rydym yn gofyn eu barn am ein gwasanaethau dwyieithog a'u gallu i weithio yn eu dewis iaith. Eleni cawsom adborth positif gyda'r rhan fwyaf o Aelodau a'u staff cymorth yn hapus gyda'r ddarpariaeth. Cafwyd canmoliaeth i safon y gwasanaethau cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd, a bydd sylwadau ar y gwasanaethau hyn yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu adnoddau a buddsoddiad er mwyn cynnal y safonau uchel hyn. Roedd yr un peth yn wir mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer caffael neu wella sgiliau iaith gydag ambell i sylw yn gofyn am fwy o gefnogaeth neu hyblygrwydd. O ran ethos dwyieithog y sefydliad, unwaith eto, roedd yr adborth yn bositif ar y cyfan, ac yn adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi bod nid yn unig dros gyfnod y pumed Cynulliad, ond yn barhaus ers sawl blwyddyn bellach. Dros y flwyddyn seneddol nesaf, bydd yr adborth hwn yn ein helpu i flaenoriaethu adnoddau ac y gynllunio ein gwaith.

Cynllunio'r gweithlu a pheuoedd iaith

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth sy'n bosibl i wireddu ein huchelgais erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol hwn yn 2021, rydym wedi cymryd camau ychwanegol i adolygu cynlluniau iaith pob gwasanaeth eleni. Mae'r dogfennau hyn yn rhai byw, sy'n cael eu hadolygu pan fydd swydd wag yn codi mewn gwasanaethau er mwyn edrych ar gapasiti dwyieithog presennol ac anghenion y gwasanaeth o ran cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cynllun. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith weinyddol fewnol - Cymraeg a Saesneg, a'n bwriad yw sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion ieithyddol ein holl gwsmeriaid a hynny yn ddiodyn. Yn ystod y broses o adolygu'r cynlluniau iaith gwasanaeth, rydym wedi gweld peuoedd yn datblygu, gydag aelodau timau yn gweithio'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng un iaith swyddogol yn bennaf yn unol â

gofynion eu cwsmeriaid, yn gwbl naturiol, fel canlyniad i brosesau recriwtio yn seiliedig ar anghenion y gwasanaeth. Mae Swyddfa Breifat y Llywydd, y Tîm Addysg, y Tîm Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn Swyddfa'r Gogledd, y tîm sy'n darparu gwasanaethau ar y derbynfydd ar draws yr ystâd, tîm Dysgu a Datblygu y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, a'r Tîm Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau i gyd yn enghreifftiau o dimau sy'n gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r timau yn cynnwys cyfuniad o siaradwyr rhugl a dysgwyr. Mae enghreifftiau eraill ar draws y sefydliad o dimau sy'n gweithio trwy gyfrwng y Saesneg, gan ddefnyddio gwasanaethau eraill i ddarparu elfennau dwyieithog yn ôl yr angen. Yn ogystal â'r peuoedd hyn, mae nifer cynyddol o enghreifftiau lle caiff y Gymraeg ei defnyddio yn naturiol o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prosesau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cyfarfodydd y Tîm Arwain yn cael eu cynnal yn ddwyieithog
- Cyfarfodydd timau unigol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog
- Cyfarfodydd grwpiau llywio a thasgluoedd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Mae cyfrwng iaith neu ieithoedd gweinyddu mewnol wedi bod yn destun trafodaeth gynyddol ym maes cynllunio ieithyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf am sawl rheswm. Er enghraifft, cafodd y pwnc ei wyntyllu yn adroddiad gweithgor Rhodri Glyn Thomas *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* (2016), ac wrth i gyfundrefn safonau'r Gymraeg ddod i rym mae gofyn i gyrrff sydd dan ddyletswydd ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweinyddiaeth fewnol. Trwy adolygu ein cynlluniau iaith yn rheolaidd, byddwn ni hefyd fel sefydliad yn datblygu'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu yn gweithio gyda nhw, yn gallu gwneud hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg, fel ag y gallant yn Saesneg.

Wrth ddefnyddio dulliau cynllunio gweithlu o'r fath, mae gwasanaethau'r pwyllgorau wedi dechrau ar y gwaith o greu timau sy'n gallu gweithio yn newis iaith cadeiryddion pwyllgorau. Trwy ddefnyddio'r ymagwedd timau integredig, a sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol gan staff allweddol, rydym yn symud tuag at sefyllfa ble y byddwn yn gallu darparu cefnogaeth lawn i gadeiryddion pwyllgorau yn eu dewis iaith. Bydd hyn yn ei dro eu galluogi nhw i baratoi ar gyfer cyfarfodydd yn eu dewis iaith. Ein gobaith yw y bydd cefnogi cadeiryddion i gadeirio yn eu dewis iaith yn creu awyrgylch mwy dwyieithog mewn cyfarfodydd, ac yn annog Aelodau Cynulliad a thystion i gyfrannu yn eu dewis iaith hwy hefyd.

Gwybodaeth ystadegol

Mae'r adran hon yn ychwanegiad newydd i'r adroddiad blynyddol yn sgil adborth gan Aelodau Cynulliad a chyfranddeiliaid. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i flaenoriaethu ein gwaith ar y themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn.

Mae'r feddalwedd newydd a gyflwynwyd ar gyfer y Swyddfa Gyflwyno a Chofnod y Trafodion yn ein galluogi i gasglu ystadegau ynghylch busnes a thrafodion. Dechreuwyd ar y broses o gyflwyno'r feddalwedd newydd fis Medi 2017.

Recriwtio

Byddwn yn defnyddio'r ystadegau isod fel dull o fonitro sut y mae'r system recriwtio newydd yn cael ei rhoi ar waith. Ynghyd â'r data a gesglir trwy gofnodi lefelau sgiliau iaith ein holl staff, bydd yn fodd o weld newidiadau ym mhatrwm sgiliau iaith y sefydliad. Eleni byddwn yn cynnwys manylion swyddi a hysbysebwyd yn ôl y disgrifiad presennol, sef 'Cymraeg yn hanfodol'. O'r haf 2018 ymlaen, bydd modd i ni gofnodi nifer y swyddi a hysbysebir ar bob lefel, gan gynnwys Cymraeg Cwrteisi.

Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd a oedd yn nodi gofyniad ieithyddol

Allanol		Mewnol		Cyfanswm	
Swyddi a hysbysebwyd	Cymraeg yn hanfodol	Swyddi a hysbysebwyd	Cymraeg yn hanfodol	Swyddi a hysbysebwyd	Cymraeg yn hanfodol
24	12	13	1	37	13

Canran y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn hanfodol- **35%**

Busnes y Cynulliad

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi amlinelliad o'r ffordd y caiff busnes ei gyflwyno. Ar sail yr ystadegau hyn, byddwn yn edrych ar ffyrdd o gefnogi Aelodau Cynulliad a'u Staff Cymorth i sicrhau eu bod yn deall y systemau ac yn hyderus i gyflwyno busnes yn eu dewis iaith swydddogol. Byddwn hefyd yn edrych ar ein systemau ar gyfer derbyn eitemau gan drydydd partion er mwyn sicrhau ein bod yn glir am ein disgwyliadau o ran gofynion y Cynllun Ieithoedd Swydddogol.

Tabl 2: Canran y busnes a gyflwynwyd yn Gymraeg fesul eitem

Cwest. Llafar	Cwest. Ysgrifenedig	Cynigion	Gwelliannau	Datganiadau Barn	Cwest. Amserol
13%	7%	2%	7%	2%	10%

Tabl 3: Dogfennau a osodwyd

Nifer y dogfennau a osodwyd	Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog	Canran
431	109	25%

Caiff holl ddogfennau Comisiwn y Cynulliad eu gosod yn ddwyieithog yn ddiodyn. Mae ein prosesau gwaith yn sicrhau bod dogfennau yn cael eu paratoi yn ddwyieithog cyn eu gosod. O'r dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog mae'r rhan helaeth yn femoranda esboniadol neu yn ddogfennau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth. Mae systemau'r Swyddfa Gyflwyno yn cynnwys gwirio a yw fersiynau dwyieithog yn cael eu cyflwyno ac yn sicrhau bod dogfennau nad ydynt yn cael eu gosod yn ddwyieithog yn cydymffurfio â'r eithriadau a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae Comisiwn y Cynulliad yn disgwyl i sefydliadau a chyrrff sy'n ddarostyngedig i safonau iaith, neu gynlluniau iaith gydymffurfio â'r gofynion hynny. Nid yw'r arfer o gyflwyno dogfennau yn uniaith, yn enwedig yng nghydestun is-ddeddfwriaeth yn cydymffurfio ag ysbryd y Cynllun. Nid yw'n bosibl i Aelodau Cynulliad baratoi ar gyfer trafodion yn eu dewis iaith heb fynediad i ddogfennau mor bwysig yn y ddwy iaith. Bydd y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swydddogol yn gohebu â Phwyllgor Busnes y Cynulliad i dynnu sylw at y patrwm hwn a byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn monitro i ba raddau y mae Aelodau Cynulliad sy'n cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig yn derbyn yr atebion hynny yn eu dewis iaith, neu yn ddwyieithog a hynny yn amserol. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o gofnodi'r wybodaeth er mwyn sicrhau bod Aelodau Cynulliad yn gallu defnyddio'r atebion hynny yn eu gwaith bob dydd.

Trafodion y Cynulliad

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cefnogi Aelodau Cynulliad i weithio yn eu dewis iaith swydddogol. Byddwn yn defnyddio'r ystadegau isod i arwain ein gwaith ar ddarparu hyfforddiant pwrpasol i Aelodau Cynulliad. Bydd y manylion am drafodion pwyllgorau yn ein cynorthwyo i gefnogi tystion sy'n ymddangos gerbron pwyllgorau, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol bod modd iddynt ddefnyddio'u dewis iaith. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn ystyried gwahanol ddulliau o gefnogi Cadeiryddion sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog ac Aelodau Cynulliad sy'n dymuno paratoi a gwneud cyfraniadau dwyieithog. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn gefnogi tystion er mwyn sicrhau eu bod yn deall egwyddorion cyfarfodydd pwyllgorau dwyieithog ac yn atgyfnerthu eu hawl i ddefnyddio eu dewis iaith wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgorau.

Tabl 4: Canran y cyfraniadau Cymraeg

Math o gyfraniad	Canran y cyfraniadau Cymraeg
Trafodion y Cyfarfod Llawn	20%
Trafodion pwyllgorau	8%


Pwyllgorau

Fel y soniwyd uchod, elfen bwysig o sicrhau y gall Aelodau Cynulliad baratoi ar gyfer ystyried a thrafod busnes yn eu dewis iaith yw sicrhau ein bod yn darparu dogfennau ar gyfer cyfarfodydd yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Wrth ofyn am dystiolaeth gan gyrff allanol, mae timau'r pwyllgorau yn pwysleisio'r angen i gyflwyno yn ddwyieithog, ac yn gofyn iddynt gydymffurfio â gofynion eu safonau neu gynlluniau iaith. Rydym yn cydnabod y ffaith nad yw'n bosibl bob amser i unigolion neu sefydliadau gwirfoddol ddarparu deunydd yn ddwyieithog. Bydd papurau briffio preifat ar gyfer aelodau pwyllgorau yn cael eu paratoi yn unol â gofynion penodol aelodau unigol. Mae hyn yn golygu nad yw pob briff yn cael ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd, ac mae trefniadau pob pwyllgor yn unigryw.


Tabl 5: Papurau a gyhoeddwyd gan bwylgorau'r Cynulliad

	Cymraeg yn unig	Saesneg yn unig	Dwyieithog
Papurau a baratowyd yn fewnol	0	40 ¹	1172
Ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau	13	438	218
Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU	0	23	8
Llywodraeth Cymru	0	174	580
Aelodau unigol	0	3	6
Unigolion neu sefydliadau allanol	9	659	337

¹ Ymatebion uniongyrchol i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg. Yn unol â'r Cynllun, caiff unrhyw ymatebion ysgrifenedig i ohebiaeth gan unigolion neu sefydliadau eu drafftio a'u cyhoeddi yn newis iaith y sawl sy'n derbyn yr ohebiaeth gennym.



THEMÂU AR GYFER CYFNOD Y CYNLLUN



Thema 1: Recriwtio

Mae'r Cynllun yn pennu cyfres o amcanion i'w cyflawni erbyn haf 2018, ac yn unol â'r amcanion hynny.

Amcanion i'w cyflawni erbyn haf 2018:

Felly, er mwyn cynyddu lefel y sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad dros amser, ac i adeiladu ar ein hethos dwyieithog presennol, erbyn haf 2018, byddwn yn:

- mabwysiadu dull lle mae angen o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau Gymraeg ('cwrteisi ieithyddol sylfaenol') ar gyfer pob swydd a hysbysebhir a bod disgwyl i ymgeiswyr naill ai ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu ymrwymo i ddysgu'r sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino;
- rhoi cyngor i'r holl ymgeiswyr ar feithrin y sgiliau iaith priodol cyn eu penodi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, gan gynnwys creu a darparu adnoddau ar-lein;
- darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer pob aelod newydd o staff y mae'n ofynnol iddo feithrin sgiliau iaith fel rhan o'r broses gynefino;
- datblygu mecanwaith i helpu i bennu'r lefelau rhuglder sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd a'u disgrifio yn yr hysbyseb swydd;
- rhoi arweiniad i reolwyr recriwtio ar y geiriad priodol er mwyn adlewyrchu gofynion pob swydd;
- sicrhau bod Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau Comisiwn y Cynulliad yn craffu ar statws gofyniad ieithyddol pob swydd a hysbysebhir cyn eu cymeradwyo;
- sicrhau bod paneli recriwtio yn gallu asesu sgiliau iaith perthnasol y swydd a hysbysebwyd yn gywir;
- sicrhau bod yr holl ymgeiswyr posibl yn ymwybodol o ethos dwyieithog y sefydliad cyn gwneud cais am swydd;
- ymchwilio i ddulliau amgen o recriwtio staff dwyieithog i feysydd penodol lle nad ydym wedi llwyddo i ddenu pobl iddynt yn y gorffennol.

Sefydlwyd Gweithgor i weithio ar y thema hon, sy'n ymwneud â swyddi staff Comisiwn y Cynulliad yn unig. Enwebwyd aelodau'r Gweithgor o blith staff y Comisiwn gan gynnwys y Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb am Ieithoedd Swyddogol, Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, cynrychiolydd o'r Tîm Recriwtio, cynrychiolydd o'r Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant, cynrychiolydd o ochr yr Undebau Llafur, a Chadeirydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb yn y gweithle REACH (rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol).

Cylch gorchwyl

- Paratoi i gyflwyno Thema 1 (Recriwtio) o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad.
- Ystyried pob agwedd a cham gweithredu perthnasol yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a goruchwyllo neu gyflawni'r broses o'u rhoi ar waith.
- Cwrdd o leiaf bob mis fel grŵp craidd i gynllunio darpariaeth a mapio'r cynnydd.
- Cynnal ffocws ar gyfleu'r cynnydd o ran rhoi camau gweithredu ar waith.
- Croesgyfeirio camau gweithredu eraill y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a mentrau corfforaethol eraill yn erbyn cynnydd y gweithgor hwn er mwyn sicrhau bod amserlenni cyflawni yn cydweddu.
- Cyflwyno Thema 1 erbyn haf 2018.
- Adrodd ar gynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

Erbyn diwedd tymor yr haf eleni, bydd y system newydd ar waith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gweithgor wedi cyfarfod yn rheolaidd gan ddyrannu tasgau a chytuno egwyddorion a phrosesau er mwyn sicrhau y bydd y broses o roi'r system newydd ar waith yn un llyfn ac effeithiol.

Yr elfennau pwysicaf i'w cytuno o'r cychwyn cyntaf oedd y diffiniadau o Gymraeg Cwrteisi a'r lefelau sgiliau iaith. Defnyddiwyd enghreifftiau o fframweithiau lefelau sgiliau mewn sefydliadau eraill ar draws Cymru i feincnodi a sicrhau cysondeb wrth eu datblygu. Yn dilyn hynny, lluniwyd canllawiau ar gyfer rheolwyr sy'n recriwtio. Mae'r canllawiau yn holl bwysig o safbwynt sicrhau ein bod yn rhoi'r system newydd ar waith yn gyson ac yn effeithiol ar draws y sefydliad. Maent hefyd yn cynnwys testun safonol fydd yn ymddangos mewn disgrifiadau swyddi.

Yn deillio o'r gwaith hwn, ac yn sgil prosiect i ddiweddarau tudalennau'r tîm recriwtio ar y we, roedd cyfle i egluro'r dull recriwtio newydd a chynnig sicrwydd i'r sawl oedd yn bryderus am y newid. Gwnaed hyn trwy lunio adnoddau i gynorthwyo ymgeiswyr i ddeall lefel Cymraeg Cwrteisi ac adran Cwestiynau

Cyffredin er mwyn lleddfu unrhyw bryderon. Roedd y gweithgor hefyd yn gwirio'n rheolaidd bod y tasgau oedd yn deillio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a luniwyd adeg llunio'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol yn 2017, yn cael eu cyflawni.

Bu'r broses o ymgysylltu ag Ochr yr Undebau Llafur ac wedi hynny gyda Phenaethiaid Gwasanaethau, Cydgysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swydddogol ac aelodau'r rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle yn werthfawr iawn. Roedd yn cynnig sicrwydd i'r gweithgor nad oedd unrhyw ran o'r gwaith yn achosi i'r sefydliad wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr yn anfwriadol.

Dechreuwyd hefyd ar y gwaith o gyflwyno a chynnig hyfforddiant ac asesiadau Cymraeg Cwrteisi dewisol ar gyfer holl staff Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith ar gael i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i dimau neu unigolion, a pharatowyd modiwl Cymraeg Cwrteisi i'w ddefnyddio yn ôl y gofyn. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i staff gael eu hasesu ar gyfer lefel Cymraeg Cwrteisi, a bydd pawb sy'n cyrraedd y lefel gofynnol yn derbyn tystysgrif sy'n ddilys am ddwy flynedd.

Fis Chwefror eleni cynhaliodd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad seremoni anffurfiol i gydnabod llwyddiant y grŵp cyntaf a lwyddodd yn yr asesiad. Roedd yn braf cael cyfle i ddathlu ymrwymiad y staff a chyflwyno'u tystysgrifau ar yr un pryd.



Thema 2: Sgiliau Iaith

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gefnogi holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, a Staff y Comisiwn i ddatblygu neu i wella eu sgiliau iaith. Yn dilyn y gwaith sydd eisoes wedi digwydd ar recriwtio, bydd elfennau ychwanegol a phwysig i waith y Tîm Sgiliau Iaith.

Mae'r tîm eisoes wedi gweithio ar ddatblygu a phrofi pecyn o adnoddau ac asesiadau ar gyfer darpar ymgeiswyr a bydd y gwaith o gynghori, asesu a chefnogi'r broses yn parhau. Bydd y tîm hefyd yn rhan annatod o'r broses o adnabod lefelau sgiliau dysgwyr, a chynorthwyo unigolion i fapio eu sgiliau i gydfynd â'r lefelau sgiliau a ddiffiniwyd fel rhan o'r gwaith ar Thema 1 uchod.

Mae'r tîm bellach wedi datblygu rhaglen o hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol a hyblyg ar gyfer ein holl ddysgwyr, gyda 123 o ddysgwyr yn derbyn hyfforddiant rheolaidd. Bu cynnydd calonogol yn nifer y dysgwyr rheolaidd, a chafwyd cynnydd yn y sesiynau ad-hoc sy'n digwydd hefyd. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth un i un, datblygu adnoddau dysgu pwrpasol, ac amrywio dulliau dysgu yn ôl anghenion dysgwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, datblygwyd sawl cwrs wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer timau penodol o fewn y sefydliad a hynny ar bob lefel gan gynnwys darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl oedd yn dymuno gloywi eu Cymraeg ysgrifenedig.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Tîm Sgiliau Iaith hefyd wedi ystyried dulliau amgen o ddarparu hyfforddiant sgiliau iaith. Mae'r sefydliad wedi cofrestru ar gyfer darpariaeth cwrs blasu Cymraeg Gwaith ar-lein, ac fel rhan o'r un cynllun, bydd Comisiwn y Cynulliad yn cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cyrsiau preswyl Cymraeg Gwaith ar gyfer Aelodau Cynulliad, eu Staff Cymorth a Staff y Comisiwn.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda darparwyr hyfforddiant allanol i sicrhau bod sgiliau priodol gan y Tiwtoriaid i gydweithio â dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i greu adnoddau dysgu priodol fel rhan o'r ddarpariaeth addysgu. Elfen bwysig o waith y Tîm Sgiliau Iaith yw darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer pob dysgwr, a byddwn yn parhau i sicrhau bod y sgiliau a'r ymwybyddiaeth gan y tîm i wneud hynny.

Dros gyfnod toriad yr haf, bydd y Tîm Sgiliau Iaith yn cydweithio gyda grwpiau o ddysgwyr i ddarparu hyfforddiant dwys gan wneud y defnydd gorau o gyfnodau llai prysur yng nghalendr y sefydliad. Mae'r tîm eisoes wedi treialu ambell i syniad

gan gynnwys diwrnod o hyfforddiant dwys ar gyfer grŵp o ddysgwyr a diwrnod o hyfforddiant ychwanegol ar gyfer dysgwyr oedd wedi eu cofrestru i sefyll arholiadau. Bydd cyflwyno'r system recriwtio newydd a'r disgrifiadau lefelau sgiliau iaith yn gyfle i'r tîm ymgynghori gyda dysgwyr ac yn fwy eang i adnabod unrhyw anghenion dysgu newydd, a bydd y gwaith hwn yn dechrau dros doriad yr haf.

Er mwyn cydnabod yn well y buddsoddiad a wneir gan ein dysgwyr, bydd y Tîm Sgiliau Iaith hefyd yn cyflwyno system contract y dysgwr. Bwriad y system yw sicrhau cytundeb rhwng y dysgwr, y rheolwr llinell a'r tiwtor ar dargedau dysgu ar gyfer y chwe mis sydd i ddod, ac i ddarparu adborth ar gynnydd y dysgwr ar gyfer y chwe mis blaenorol. Bydd hyn yn rhoi rheolaeth i ddysgwyr unigol dros eu cynnydd ac yn gymorth iddynt wrth gynllunio eu gyrfa.

O ran y rheolwr llinell, bydd y system yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei gofnodi fel rhan o'r broses rheoli perfformiad er mwyn caniatáu i ni ddathlu llwyddiant a chydabod ymdrech unigolion. Wrth gofnodi targedau a chynnydd yn ffurfiol, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r capasiti dwyieithog o fewn eu gwasanaethau ac yn gallu defnyddio'r wybodaeth i gynllunio eu darpariaeth ddwyieithog yn briodol.

Bydd y cynlluniau iaith gwasanaeth unigol yn adlewyrchu cynnydd unigolion wrth iddynt symud trwy'r lefelau sgiliau hefyd. Dros gyfnod y Cynllun, byddwn hefyd yn gweithio ar ffyrdd o gadw gwybodaeth gyfoes ar sgiliau iaith staff y Comisiwn er mwyn blaenoriaethu a thargedu'r cymorth sydd ar gael i ddatblygu sgiliau iaith ar draws y sefydliad.



Astudiaeth achos: Sgiliau Iaith

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm TGCh a Darlledu i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant sgiliau iaith. Lluniwyd a chyflwynwyd modiwl Cymraeg Cwrteisi ar gyfer staff di-Gymraeg.

Aeth y modiwl gam ymhellach na'r asesiad Cymraeg Cwrteisi cyffredinol, ac roedd yn cynnwys terminoleg, ymadroddion ac ymarferion sy'n berthnasol i waith y tîm yn ogystal ag elfennau ynganu ac ymwybyddiaeth fwy cyffredinol.

Wedi astudio'r modiwl hwn, roedd sawl aelod o'r tîm yn awyddus i barhau i ddysgu, ac erbyn hyn, mae grŵp ohonynt yn derbyn gwersi wythnosol gyda'i gilydd. Trefnwyd hyfforddiant gloywi iaith ysgrifenedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg y tîm hefyd, er mwyn eu helpu i ddefnyddio'r sgiliau oedd ganddynt yn y gweithle.

Mae'r rhaglen hyfforddiant hon wedi rhoi'r cyfle i bob aelod o staff ddatblygu eu sgiliau ac ennill hyder, sydd wedi galluogi'r tîm i ddarparu gwasanaethau dwyieithog gwell i gwsmeriaid.

Thema 3: Cynllunio Ieithyddol

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r Tîm Ieithoedd Swydddogol wedi cwrdd â Phenaethiaid Gwasanaeth a Chydgysylltwyr Ieithoedd Swydddogol i drafod eu cynlluniau iaith. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i drafod sut y mae'r cynlluniau yn bwydo i mewn i'r broses o gynllunio capasiti dwyieithog gwasanaethau, ac yn dilyn y trafodaethau, cafodd y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddarau. Cafwyd proses o graffu pellach ar lefel gorfforaethol wedi hynny er mwyn sicrhau bod ein hymagwedd at gynllunio ieithyddol a chapasiti dwyieithog yn gyson ar draws y sefydliad. Derbyniodd pob gwasanaeth adborth ar eu cynlluniau unigol, ac awgrymwyd ffyrdd o ychwanegu targedau mwy heriol ac uchelgeisiol mewn rhai cynlluniau. Yn dilyn rhoi'r system recriwtio newydd ar waith a chyflwyno'r lefelau sgiliau iaith ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag, bydd angen i'r gwasanaethau adolygu eu cynlluniau. Wrth wneud hyn, bydd anghenion ieithyddol swyddi yn cael eu cofnodi yn fwy manwl na'r disgrifiad presennol o Gymraeg yn hanfodol neu ddymunol.



Mae'r cynlluniau hefyd wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Gweithredol bod rheolwyr sy'n recriwtio yn ystyried y gwasanaethau dwyieithog y mae angen eu darparu, y sgiliau o fewn y tîm i wneud hynny, a'r modd mwyaf effeithiol o wneud hynny. Wrth ystyried yr angen i greu swyddi newydd, neu i lenwi swyddi gwag, mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth ynghylch anghenion sgiliau ieithyddol y swyddi a sut mae hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau iaith gwasanaethau unigol ymysg pethau eraill. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn sail i unrhyw benderfyniad a wneir.

Pan fydd y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg newydd wedi cael ei rhoi ar waith, a'r cynlluniau iaith gwasanaeth wedi cael eu hadolygu, bydd angen cynnal arolwg sgiliau iaith ar draws y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gofyn i staff y Comisiwn wneud hunan asesiad o'u sgiliau iaith Gymraeg, yn seiliedig ar y fframwaith newydd. Caiff canlyniadau'r hunan asesiad eu bwydo i mewn i'r system adnoddau dynol a chyflogres, ac mae'r gwaith paratoi ar gyfer ymgorffori'r wybodaeth yn y system eisoes yn digwydd. Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwybodaeth ynghylch lefelau sgiliau iaith ar ffurf fesuradwy fydd yn golygu bod modd adrodd yn flynyddol ar y newid ac unrhyw gynnydd yn y lefelau sgiliau ar draws holl staff Comisiwn y Cynulliad. Bydd y broses hefyd yn ffordd o gydnabod cynnydd dysgwyr a dathlu llwyddiannau.



Thema 4: Trafodion y Cynulliad

Mae'r gwaith ar feithrin dealltwriaeth o ddewis iaith aelodau unigol yn parhau. Y timau integredig yw'r brif ffordd o wneud hynny, ac mae'r drefn bresennol yn gweithio'n dda. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn parhau i gydweithio ar gynhyrchu geirfaon ar gyfer pan fydd pwyllgorau yn ystyried deddfwriaeth, a chaiff geirfaon eu cynhyrchu ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau yn ôl y gofyn hefyd.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer anghenion unigol Aelodau Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys gwersi unigol yn wythnosol i drefniadau mwy hyblyg megis sesiwn ynganu cyn araith yn y Cyfarfod Llawn neu gyfres o sesiynau pan fydd y dyddiadur yn caniatáu. Ers sefydlu'r tîm, mae nifer o'r Aelodau Cynulliad sy'n dysgu wedi magu'r hyder i ddefnyddio eu sgiliau mewn dadleuon neu ddatganiadau ar lawr y siambr neu mewn digwyddiadau cyhoeddus. Mae'r tîm wedi datblygu pecyn hyfforddiant i gynorthwyo aelodau i ymgymryd â chyfweliadau ar y cyfryngau trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Mae sawl Aelod Cynulliad mwy rhugl hefyd wedi derbyn cymorth i adennill hyder i ddefnyddio'u sgiliau iaith mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol.

Un o'r prif ddatblygiadau ar gyfer y Pumed Cynulliad o ran cefnogi Aelodau i weithio yn ddwyieithog yw sefydlu'r system Cyfeillion Cyswllt. Dros doriad yr haf 2017, derbyniodd pob Aelod Cynulliad wybodaeth am eu Cyfaill Cyswllt unigol ar ffurf cerdyn post sy'n nodi manylion cyswllt a gwybodaeth ddefnyddiol arall i'r Aelod. Mae'r cyfeillion ar gael i gynnig cyngor ar unrhyw fater yn ymwneud a gweithio'n ddwyieithog. Dros y flwyddyn mae'r cyfeillion wedi darparu cyngor ar sut i gyfieithu dogfennau, i drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, a llunio cyhoeddiadau dwyieithog. Bydd y cyfeillion yn cyfarfod yn achlysurol fel grŵp i drafod unrhyw ymholiadau neu broblemau sydd wedi codi, yn rhannu enghreifftiau o arfer dda ac yn derbyn gwybodaeth am unrhyw gymorth neu ddarpariaeth ychwanegol i Aelodau Cynulliad.

Fel rhan o'r gwaith o gefnogi Aelodau Cynulliad mae'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cychwyn ar brosiect i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Ar ôl trafod gydag Aelodau Cynulliad a'u Staff Cymorth, mae'r Tîm wedi cynhyrchu cyfres o dudalennau ar Fewnrwyd yr Aelodau sy'n crynhoi gwybodaeth ymarferol gan gynnwys y gofynion sydd wedi eu nodi yn y Cynllun a sut i drefnu cyfieithiad. Bydd y tudalennau hefyd yn cynnwys cynghorion defnyddiol ar gyfer cynhyrchu posterï neu gyhoeddiadau dwyieithog. I gynorthwyo gyda'r broses, datblygwyd nifer o

dempledi ar gyfer hysbysebion cymorthfeydd a chylchlythyron ar gyfer etholwyr. Daeth yn amlwg hefyd bod angen gwneud mwy i gynorthwyo gyda'r broses o gynhyrchu gwefannau dwyieithog. Cynhyrchwyd rhestrau termau ac ymadroddion dwyieithog er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio a dylunio'r gwefannau a threialu gwahanol ddulliau o greu cynnwys ar gyfer y gwefannau. Roedd hyn yn cynnwys trefnu cyfieithiadau o wybodaeth allweddol, defnyddio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn ddwyieithog ac atgynhyrchu negeseuon o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi cyngori Aelodau unigol wrth iddynt fynd drwy'r broses o gynhyrchu eu gwefan.



Pan gefais fy ethol fel Aelod Cynulliad, nid oeddwn yn gyfarwydd ag egwyddorion gweithio mewn sefydliad dwyieithog. Cefais gymorth gan y tîm Cymorth Busnes yr Aelodau i ddeall pa elfennau o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol oedd yn berthnasol i mi yn fy rôl fel Aelod Cynulliad. Wedi hynny, cefais gymorth pellach gan y tîm i wneud y newidiadau oedd eu hangen gan gynnwys help gyda chyfieithu a chynngor ar greu cyhoeddiadau a gwefannau dwyieithog. Erbyn hyn, rydw i'n hyderus bod fy hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd ac unrhyw gyhoeddiadau eraill yn gwbl ddwyieithog, yn adlewyrchu'r arferion gorau ac yn unol â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Rydw i hefyd wedi diweddarau fy ngwefan gyda chymorth y tîm.

Dawn Bowden AC



Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

Adnabod Staff Dwyieithog

Anogir staff Comisiwn y Cynulliad i wisgo llinyn gwddf neu fathodyn yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr. Pan fyddant yn dechrau gweithio gyda'r Comisiwn byddwn yn cynnig llinyn gwddf priodol iddynt ar eu diwrnod cyntaf. Mae Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol y gwasanaethau unigol hefyd yn cwrdd â phob aelod newydd o staff i drafod y Cynllun fel rhan o'u hyfforddiant cynefino, a byddant fel rhan o'r sgwrs yn cynnig cortyn gwddf neu fathodyn iddynt. Wrth i ddysgwyr newydd gofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg byddant hefyd yn derbyn llinyn gwddf dysgwr fel rhan o'u pecyn croeso. Gall y Cyfeillion Cyswllt ddarparu llinynnau gwddf neu fathodynau i Aelodau Cynulliad a'u Staff Cymorth hefyd yn ôl yr angen. Mae nifer fawr o staff dwyieithog Comisiwn y Cynulliad bellach yn defnyddio logo iaith gwaith fel rhan o'u llofnod e-bost. Mae cymorth ar gael i staff os ydynt yn dymuno cynnwys y logo fel rhan o'u llofnod electronig, a gall y Cyfeillion Cyswllt gynorthwyo Aelodau Cynulliad neu eu Staff Cymorth os ydynt yn dymuno gwneud hynny hefyd.

Yn hanesyddol, mae rhai meysydd gwasanaeth wedi ei chael yn anodd i recriwtio a chadw staff dwyieithog. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i ystyried ffyrdd arloesol o recriwtio staff newydd, ac mae'r Gwasanaeth Diogelwch yn arwain y ffordd wrth dreialu gwahanol ddulliau o recriwtio. Rydym yn obeithiol y bydd y gwaith ar y thema Recriwtio, a chyflwyno fframwaith sgiliau iaith Gymraeg newydd yn cynorthwyo gwasanaethau i ddisgrifio eu hanghenion o ran sgiliau iaith Gymraeg yn well. Y gobaith yw y bydd hynny yn ei dro yn denu ymgeiswyr na fyddai wedi ymgeisio am swydd ar sail y disgrifiad Cymraeg yn hanfodol. Yn achos y Gwasanaeth Diogelwch, cymerwyd sawl cam i geisio denu ymgeiswyr â'r sgiliau priodol gan gynnwys defnyddio disgrifiadau manwl o anghenion ieithyddol y swydd, a phrofion pwrpasol. Bydd y gwaith o ddadansoddi pa mor effeithiol yw'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yn parhau a bydd gwersi a ddysgwyd yn ein cynorthwyo gyda phrosesau recriwtio yn y dyfodol.



Astudiaeth achos: Adnabod Staff Dwyieithog

Roedd angen ffordd o adnabod Dysgwyr pan nad oes modd iddynt wisgo llinyn gwddf, gan gynnwys staff y Gwasanaeth Diogelwch. Roedd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn galluogi ymwelwyr â'r ystâd i ddewis defnyddio'r Cymraeg.

Wedi ymchwilio i'r math o gynnyrch oedd ar gael, penderfynwyd defnyddio'r un syniad a'r llinyn gwddf Dysgwr, i gynhyrchu bathodyn syml i'w wisgo ar lifrau a dillad aelodau o staff yn ôl yr angen. Gellir gweld y bathodynnau, ynghyd â'r llinyn gwddf Dysgwr, a'r nwyddau iaith gwaith yn cael eu gwisgo gan Aelodau Cynulliad, eu staff cymorth, a staff y Comisiwn.

Mae hyn yn elfen bwysig o'r gwaith i sicrhau ei fod yn haws adnabod staff dwyieithog ar draws yr ystâd.

Ymwybyddiaeth

Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn sesiwn ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r hyfforddiant cynefino corfforaethol. Mae'r sesiynau hynny yn cynnwys cyflwyniad i ethos dwyieithog y sefydliad ac egwyddorion gweithio'n ddwyieithog, a gwers blasu fyr gan aelod o'r Tîm Sgiliau Iaith. Yn ogystal, mae Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol yn darparu cyflwyniad ar y Cynllun a'r goblygiadau o ran y gwasanaethau unigol ac yn dangos fideo ymwybyddiaeth i staff newydd yn ystod eu hwythnosau cyntaf. Yn ystod y flwyddyn seneddol hefyd, cynhelir sawl digwyddiad ymwybyddiaeth, ac eleni, dathlwyd Diwrnod Shwmae, Su'mae, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru. Roedd pob un o'r digwyddiadau hyn yn gyfle i atgoffa Aelodau a'u Staff Cymorth a Staff y Comisiwn am ein hymrwymadau o ran y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, i sôn am weithio'n ddwyieithog ac i dynnu sylw at wasanaethau'r Tîm Sgiliau Iaith. Roedd sesiynau gloywi iaith a hyfforddiant Cymraeg Cwrteisi yn rhan o'r ddarpariaeth arbennig ar gyfer wythnos dysgu yn y gweithle hefyd.



Mae pethau wedi gwella yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fel siaradwr Cymraeg, dwi'n teimlo bod y gallu i weithio yn ddwyieithog yma yn ardderchog a bod ethos dwyieithog da. Ar y cyfan, rwy'n teimlo bod y balans yn iawn ac yn caniatáu i bobl wneud eu dewisiadau eu hunain.

Anna Daniel, Pennaeth y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol



Technoleg

Mae'r berthynas gyda Microsoft yn parhau gyda lansiad model niwral cyfieithu peirianyddol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwaith ar y system wedi arwain at welliant yn ansawdd y cyfieithiadau sy'n cael eu cynhyrchu trwy gyfleuster Microsoft Translator.

Defnyddiwyd technoleg cyfieithu peirianyddol hefyd fel rhan o system ddigidol newydd i gynhyrchu Cofnod y Trafodion a busnes a osodir yn y Swyddfa Gyflwyno. Adeiladwyd y system newydd mewn cydweithrediad â staff Comisiwn y Cynulliad, a bellach, mae Cofnodion Cyfarfodydd Llawn, a thrawsgrifiadau pwyllgorau a holl fusnes y Swyddfa Gyflwyno yn cael eu cynhyrchu ar ffurf data agored chwiladwy. Gall y cyfieithwyr ddefnyddio technoleg cyfieithu peirianyddol oddi mewn i'r system hefyd.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i ymchwilio i ddulliau newydd o ddefnyddio technoleg i gefnogi Aelodau Cynulliad, eu Staff Cymorth a Staff Comisiwn y Cynulliad i weithio yn eu dewis iaith swyddogol, ac i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd, dechreuwyd ar y gwaith o ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio dewisiadau iaith Aelodau Cynulliad, eu Staff Cymorth a Staff Comisiwn y Cynulliad er mwyn darparu rhyngwynebaw TGCh Cymraeg yn ddiodyn. Mae'r Tîm TGCh a'r Tîm Adnoddau Dynol wedi dechrau adnabod ffyrdd o drosglwyddo dewisiadau iaith fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer darparu offer TGCh. Bydd prosesau gwaith yn cael eu haddasu er mwyn treialu'r system gydag aelodau newydd o staff Comisiwn y Cynulliad sy'n ddwyieithog fel y gallwn gasglu adborth a chynllunio ar gyfer cefnogi a darparu cymorth i annog defnydd o'r systemau hynny.

Cafwyd ymgyrch yn ystod y flwyddyn i ddarparu cymorth i ddefnyddwyr ein system TGCh sy'n ymgorffori systemau teleffoni. Darparwyd canllawiau hawdd i'w dilyn ar gyfer recordio neges peiriant ateb bersonol. Yn ogystal â'r camau ymarferol y mae angen eu cymryd, mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys negeseuon syml gyda geiriad ffonetig a ffeiliau sain er mwyn annog defnyddwyr i recordio eu negeseuon eu hunain. Fel arall, trefnwyd i aelodau o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol fod ar gael i recordio negeseuon ar ran defnyddwyr. Fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth barhaus, gall y Tîm Sgiliau Iaith gynnig sesiynau i Aelodau Cynulliad, eu staff cymorth a staff Comisiwn y Cynulliad ar ateb y ffôn a recordio neges peiriant ateb.

Cyfieithu ar y pryd

Mae'r Cynllun yn nodi y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gyfer yr holl drafodion ac ar gyfer unrhyw fusnes neu ddigwyddiadau swyddogol arall. Mae'r gwasanaeth hefyd ar gael ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau mewnol yn ôl y gofyn. Pan na fydd modd sicrhau bod staff dwyieithog ar gael, byddwn hefyd yn darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd yn ymwneud â chyflogaeth. Mae ein gwaith ar gynllunio ieithyddol wedi golygu nad yw'r angen hwn wedi codi hyd yma. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn ystyried ein polisi ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd. Mae hyn wedi cynnwys yr egwyddor o ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg a'r newidiadau i brosesau, niferoedd staff ac anghenion hyfforddiant.

Rhannu arbenigedd

Yn dilyn penderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin i ganiatáu i Aelodau Seneddol ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhai trafodion, cynhaliodd yr Uwch Bwyllgor Cymreig ei gyfarfod dwyieithog cyntaf fis Chwefror eleni. Yn arwain i fyny at y cyfarfod, bu'r timau cyfieithu a chofnodi yn cynghori ar drefniadau ymarferol a hefyd yn cynorthwyo'r Tîm Hansard i baratoi ar gyfer cofnodi'r cyfraniadau Cymraeg a'r cyfieithiad gan gynnwys addasu arddull y tŷ a chyngor i'r golygyddion oedd yn siarad Cymraeg ond nad oeddent wedi arfer â chofnodi cyfraniadau Cymraeg. Aelodau o Dîm Cyfieithu ar y Pryd Comisiwn y Cynulliad oedd yn darparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfod hefyd. Bydd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn parhau i gynnal y berthynas ac i ddarparu cyngor yn ôl y galw.

Yn ddiweddar, ymunodd y Llywydd mewn diwrnod i drafod dyfodol ieithoedd lleiafrifol ar draws Ewrop yn ystod Cynhadledd Seneddau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop. Yn ystod y diwrnod, cyflwynodd sesiwn yn rhannu ein profiadau o weithio fel deddfwrfa cwbl ddwyieithog. Roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r ffaith fod ganddi statws fel iaith swyddogol yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi cynghori sawl sefydliad allanol ar faterion yn amrywio o dechnoleg iaith i recriwtio. Ymysg y sefydliadau hyn, roedd Prifysgol De Cymru, Heddlu Gwent, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Caerdydd. Unwaith eto eleni, cyflwynodd aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol nifer o sesiynau hyfforddi ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru gyda'r nod o ddangos i gyfieithwyr sut i ddefnyddio cyfieithu peirianyddol yn

briodol er mwyn hwyluso'n gwaith. Mae Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn aelod o Fwrdd Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru sy'n cynghori Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar faterion yn ymwneud â thechnoleg a'r Gymraeg.

Monitro a Chydymffurfio

Mae'r gwaith o fonitro wedi parhau ar hyd y flwyddyn trwy waith y Cydgysylltwyr Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gan adrodd ar achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn paratoi adroddiad misol ar unrhyw ganmoliaeth neu gwynion a dderbyniwyd. O ran cwynion, mae'r adroddiad yn amlinellu yn fras fanylion y gŵyn, ein hymateb i'r unigolyn neu'r grŵp oedd wedi gwneud cwyn, ac unrhyw gamau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa gan gynnwys newid prosesau neu ailgyfeirio adnoddau neu sgiliau. Mae hyn yn ffordd effeithiol o sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o unrhyw broblemau, ac yn rhannu enghreifftiau o arfer dda ar draws y sefydliad. Yn ystod cyfarfodydd Fforwm Cydgysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol bydd cyfle i drafod unrhyw broblemau ac i gael arweiniad neu gyngor fel ffordd o sicrhau llai o achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Ar adegau yn ystod y flwyddyn rydym wedi methu â chyrraedd y safonau uchel rydym yn eu gosod neu wedi methu â chyrraedd disgwyliadau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth neu'r cyhoedd. Mae nifer o gwynion anffurfiol a ffurfiol wedi dod i law, a gellir eu categoreiddio fel a ganlyn:

Gwybodaeth ar ein Gwefan

Unwaith eto eleni, bu adegau pan rydym wedi methu â chyhoeddi dogfennau yn unol â gofynion ein Cynllun oherwydd materion technolegol. Rydym wedi cael gwybod am nifer o achosion o lincs i ddogfennau Cymraeg sy'n arwain at y fersiynau Saesneg, lincs sydd wedi torri, neu destun Saesneg yn ymddangos o fewn tudalennau Cymraeg. Mae adborth ar faterion o'r fath yn hynod werthfawr inni gan ei fod yn ein galluogi i gywiro camgymeriadau neu broblemau yn gyflym. Yn dilyn adborth ar yr achosion hyn, ac fel rhan o'r gwaith i adnewyddu ein gwefan, byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella hyfforddiant i staff sy'n cyhoeddi i'r wefan, gan gynnwys atgyfnerthu'r angen i wirio cynnwys a lincs wrth gyhoeddi.

Gwybodaeth ar ein Mewnrwyd

Cafwyd sawl enghraifft dros y flwyddyn ddiwethaf o negeseuon yn cael eu cyhoeddi yn uniaith Saesneg ar dudalen newyddion y Ffwrwyd. Ymchwiliwyd ar

unwaith i'r broblem, ac ar y cyfan roedd modd cyhoeddi fersiwn dwyieithog yn gyflym iawn. Ar y cyfan diffyg cynllunio oedd achos y broblem, gyda staff yn ansicr ynghylch prosesau ar gyfer gwneud cais am gyfieithiadau ar frys, neu o ofynion y Cynllun mewn perthynas â negeseuon o'r fath. Wedi trafodaethau gyda Chydgysylltwyr Ieithoedd Swydddogol a Phenaethiaid Gwasanaethau, cytunwyd bod angen atgoffa staff am y gwasanaethau sydd ar gael trwy'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, a chafwyd cyfle i wneud hyn trwy ymweld â chyfarfodydd timau a thrwy gynnig sesiwn fel rhan o'r ddarpariaeth wythnos dysgu yn y gweithle.

Papurau a dogfennau ar gyfer busnes y Cynulliad

Cafwyd ambell enghraifft o fethu â darparu dogfennau ar gyfer busnes y Cynulliad yn ddwyieithog. Unwaith eto, diffyg cynllunio, neu newidiadau munud olaf i fusnes oedd yn gyfrifol am yr achosion hyn. Pan ddaeth i'r amlwg ein bod wedi methu a darparu dogfen yn ddwyieithog, gwnaed trefniadau ar unwaith i sicrhau bod cyfieithiad ar gael mor fuan â phosibl. Cafodd yr Aelodau Cynulliad perthnasol wybod hefyd beth oedd wedi mynd o'i le, y camau a gymerwyd i ddatrys y broblem, a phryd y byddai modd iddynt dderbyn y ddogfen yn eu dewis iaith.

Negeseuon Peiriant Ateb

Derbyniwyd sawl cwyn anffurfiol ynghylch safon y neges peiriant ateb awtomatig ar ein system ffôn. Ar hyn o bryd, nid oes modd diffodd y neges gan ei fod yn rhan o'r system ei hun. Penderfynwyd felly llunio canllawiau ar gyfer holl ddefnyddwyr y system er mwyn eu cynorthwyo i recordio neges bersonol. Yn symud ymlaen, fel rhan o'r cyflwyniad i'r system TGCh, byddwn yn atgoffa defnyddwyr newydd bod angen iddynt recordio neges. Mae'r Tîm TGCh a'r Tîm Ieithoedd Swydddogol hefyd ar gael i helpu unigolion neu dimau i recordio negeseuon.

Darlledu trafodion y Cynulliad

Rydym yn dangos trafodion gair am air byw a thrafodion wedi'u cyfieithu o'r Cyfarfod Llawn ar Senedd.tv a YouTube. Darparwn lif sain gair am air a llif wedi'i gyfieithu o bob Cyfarfod Llawn ar gyfer darlledwyr. Mae BBC Cymru yn ffrydio'r Cyfarfod Llawn yn fyw ar eu gwefan yn Gymraeg a Saesneg. Darlledir cwestiynau'r Prif Weinidog gyda'r llif wedi'i gyfieithu ar BBC2 Cymru bob dydd Mawrth, ac mae BBC Parliament yn dangos cwestiynau'r Prif Weinidog ac eitemau dethol o'r Cyfarfod Llawn bob wythnos. Derbyniwyd cwynion o sawl cyfeiriad yn cynnwys Cwestiwn i Gomisiwn y Cynulliad ar lawr y siambr ynghylch y ffordd y mae

darlledwyr yn defnyddio'r sain a ddarperir gennym. Un elfen o'r cwynion oedd bod y ddwy iaith yn cael ei darlledu ar yr un pryd a bod rhai pobl, yn enwedig pobl sydd yn hŷn, yn cael trafferth clywed yr un o'r ddwy iaith wrth i Aelod gyfrannu yn y Gymraeg.

Ar hyn o bryd yn ogystal, os bydd Aelod Cynulliad yn gwneud cyfraniad yn Gymraeg, caiff y cyfieithiad ar y pryd ei ddarlledu ac nid y cyfraniad gwreiddiol. Elfennau arall a godwyd oedd y byddai'n well gan y sawl sydd wedi codi'r mater hwn glywed y cyfraniad yn yr iaith wreiddiol gydag isdeitlau ar gyfer y cyfieithiad.

Mae'n hanfodol bwysig fod pobl Cymru yn gallu dilyn eu democratiaeth yn ein dwy iaith swyddogol. Bydd y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol yn gohebu â'r BBC i geisio sicrwydd fod modd deall cyfraniadau Gymraeg gan Aelodau. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod darlledwyr yn trin ein dwy iaith swyddogol yn gyfartal ac i gydweithio â hwy i sicrhau ateb i'r broblem.

Ymgysylltu o bell

O dro i dro, bydd tystion neu Aelodau Cynulliad yn ymuno â chyfarfodydd pwyllgorau trwy gyfrwng cyfleuster fideo-gynadleda neu Skype. Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd, oherwydd cyfyngiadau technolegol, i ddarparu sain ddwyieithog i'r sawl sy'n cysylltu heb gael staff ychwanegol yn y lleoliad. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid dewis ym mha iaith y darperir y trafodion. Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r datblygiadau diweddaraf, ac yn ystyried y mater wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau.

Caffael meddalwedd ar gyfer Aelodau Cynulliad a'u Staff Cymorth

Mae prosiect ar waith i gaffael system gwaith achos newydd. Mynegwyd pryder gan Aelod Cynulliad bod prisiau'r systemau newydd arfaethedig yn golygu y byddai'n rhaid i'r sawl oedd yn dymuno defnyddio'r feddalwedd trwy gyfrwng y Gymraeg dalu mwy. Yn ysbryd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, ac er mwyn cynnal yr egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal, mae swyddogion y Comisiwn wedi datrys y broblem. Bydd costau'r feddalwedd gwaith achos o dan sylw yr un peth ar gyfer y sawl sy'n dymuno defnyddio fersiwn dwyieithog, neu fersiwn uniaith.